R J Edgecombe

Swyddi:

Swyddog Arweiniol i'r
Panel

Cyfeiriadau E-bost:

rjedgeco@sirgar.gov.uk

DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
04/11/2020

POLICING PROTOCOL – PERFORMANCE REPORT

Section 79 of the Police Reform and Social responsibility Act 2011 requires the Secretary of State to issue a Policing Protocol , the purpose of which is to set out how the functions of Police and Crime Commissioner and Chief constable are to be exercised in relation to each other.

Paragraph 17 of the Protocol sets out the legal powers and duties of the Commissioner, namely.

- (a) set the strategic direction and objectives of the force through the Police and Crime Plan (—the PlanII), which must have regard to the Strategic Policing Requirement set by the Home Secretary;
- (b) scrutinise, support and challenge the overall performance of the force including against the priorities agreed within the Plan;
- (c) hold the Chief Constable to account for the performance of the force’s officers and staff;
- (d) decide the budget, allocating assets and funds to the Chief Constable; and set the precept for the force area;
- (e) appoint the Chief Constable (except in London where the appointment is made by the Queen on the recommendation of the Home Secretary);
- (f) remove the Chief Constable subject to following the process set out in Part 2 of Schedule 8 to the 2011 Act and regulations made under section 50 of the Police Act 1996(a);
- (g) maintain an efficient and effective police force for the police area;
- (h) enter into collaboration agreements with other PCCs, other policing bodies and partners that improve the efficiency or effectiveness of policing for one or more policing bodies or police forces in consultation with the Chief Constable (where this relates to the functions of the police force, then it must be with the agreement of the Chief Constable);
- (i) provide the local link between the police and communities, working to translate the legitimate desires and aspirations of the public into action;
- (j) hold the Chief Constable to account for the exercise of the functions of the office of Chief Constable and the functions of the persons under the direction and control of the Chief Constable;
- (k) publish information specified by the Secretary of State and information that the PCC considers necessary to enable the people who live in the force area to assess the performance of the PCC and Chief Constable;
- (l) comply with all reasonable formal requests from the Panel to attend their meetings;
- (m) prepare and issue an annual report to the Panel on the PCC’s delivery against the objectives set within the Plan;
- (n) monitor all complaints made against officers and staff, whilst having responsibility for complaints against the Chief Constable.

The attached report sets out the Commissioner’s performance against these powers and duties

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

Signed: *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)*

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Host Authority File	PACP013	County Hall Carmarthen

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dyfed-Powys

Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011

Chwarter 2 2020/21 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad

Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pob ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 57 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn SCHTh, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 53 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr CAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder.

Gwyrdd – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol

Ambr – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol


Coch – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf.

Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch2 y flwyddyn ariannol 2020/21 (Gorffennaf/Awst/Medi 2020)

Cymhariaeth Statws CAG



Does **DIM UN** o'r meysydd gweithredu wedi'u marcio'n goch.

Er bod nifer y categorïau gwyrdd ac ambr wedi aros yr un fath, mae'r categorïau sy'n creu'r rhif hwn wedi newid rhywfaint o'r chwarter diwethaf, gyda chynnydd yn 17e ac 17ff a gostyngiad yn 17f ac 20a. Mae arweinwyr busnes dal yn adolygu statws CAG eu meysydd yn agos.



Mae pob maes yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categori:

17e - Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu - (3/7) 43% ambr

17ff - Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith - (4/5) 80% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n Ofynnol	Statws CAG	Diweddariad Cynnydd Ch2 (Gorff/Awst/Medi 2020)
Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddau sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddff Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â gohirio'r etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddau i estyn hyd tymor y Cynllun Heddlu a Throseddau o flwyddyn arall. 21.07.2020 - Cymeradwyodd Tim Gweithredol SCHTh amserlen waith ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau nesaf. 16.10.2020 – Cyfarfod cwmpasu cychwynnol ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau. Roedd swyddogion o'r Heddlu a SCHTh yn rhan o'r cyfarfod.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddau a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun wedi'i estyn yn ffurfiol i 2022, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Mae trafodaethau cychwynnol gyda Phrif Swyddogion wedi nodi y byddent yn cefnogi tynnu tîm at ei gilydd ar y cyd â SCHTh i ddatblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddau er mwyn cefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddau newydd yn 2022.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddau i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddau wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddau; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddau ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddau i estyn y Cynllun flwyddyn arall, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae trefniadau craffu ffurfiol mewn grym ac yn parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ar ben hynny, cynhwysir cynrychiolwyr CHTh yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer COVID-19, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth lawn am y pwysau sydd ar y sefydliad a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu'r heddlu'n mynd rhagddo. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd Plismona ar 09.09.2020, lle y cytunwyd y byddai SCHTh yn chwarae mwy o ran ar gyfer llunio trefniadau, yn arbennig o safbwynt partneriaeth, er mwyn cefnogi craffu effeithiol ymhellach.
		Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Gwnaed mân ddiwygiad i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol o fewn y chwarter diwethaf fel rhan o'r adolygiad / diweddariad Cylich Gorchwyl y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.
		Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Cynhaliwyd y ddau banel craffu a gyfarfu o fewn y cyfnod yn rhithwir, ac roeddent yn effeithiol iawn. Roedd adroddiadau'n amserol a chawsant dderbyniad da, gydag ymgysylltiad da gan arweinwyr yr heddlu.

		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		Mae goruchwyllo a chraffu ar ddata perfformiad a phresenoldeb mewn byrddau llywodraethu wedi parhau drwy'r pandemig. Dychwelwyd yn raddol at graffu ar berfformiad yn fwy rhagweithiol drwy baneli craffu'r Comisiynydd. Mae SCHTh yn ystyriol o'r pwysau ychwanegol ar yr heddlu ar hyn o bryd, ac o'r herwydd, mae wedi cyfyngu a theilwra ei goruchwyliaeth yn unol â hynny.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		Roedd 4 o'r 10 adroddiad archwilio yr ymatebwyd iddynt o fewn y chwarter yn gyflwyniadau hwyr. I gychwyn, adolygwyd 1 adroddiad (yn ddamweiniol) ac ni ystyriwyd fod angen ymateb. Roedd angen cydnabyddiaeth ar 3 adroddiad ond nid oedd ganddynt unrhyw argymhellion ar gyfer HDP a oedd angen ymateb statudol. Ymatebodd CHTh i ymgynghoriad AHM ar eu cynlluniau arolygu diwygiedig hefyd, yn ogystal â galwad y Swyddfa Gartref am dystiolaeth mewn perthynas â'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol Caethwasiaeth Modern.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, yn 2018, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae'r gwiriad iechyd nawr yn cael ei wirio bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes adlewyrchu ar gofnodion blaenorol a newid adrodd yn ôl yr angen.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol mewn grym, gan gynnwys Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, sef cyfarfod cyhoeddus lle mae CHTh yn dal y PG i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae eitemau sefydlog ar yr agenda'n cynnwys Cyllid ac AD Strategol. Mae trefniadau llywodraethu'n parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19, gyda ffocws cryf ar barodrwydd sefydliadol ac effaith COVID-19.
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddwyd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019. Mae trafodaethau wedi cychwyn mewn perthynas ag amcanion 2020/21.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17ch	Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Parhaodd gwaith adolygu manwl yn ystod 2019/20 gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r CHTh er mwyn hysbysu ei ystyriaethau mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau gyda Phrif Swyddogion a seminar lle'r oedd y CHTh, aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu'n bresennol. Yn y seminar, soniodd y PG a'r CA am sefyllfa gyfredol yr heddlu a'r heriau disgwylledig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 20/21-25/26, y Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn. Cefnogwyd cynnig CHTh ar gyfer praesept 2020/21 yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddu.
		Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig		Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2020 a'i gefnogi'n unfrydol gan yr aelodau Panel.

		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol		Cyflawnwyd gwaith manwl yn 2019/20 i ystyried a datblygu rhaglen gyfalaf tymor hirach (10 mlynedd) a oedd yn ffurfio rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig, y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Ystyriodd y Panel Heddlu a Throseddau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Chwefror 2020. Cefnogwyd y cynllun yn unfrydol gan yr aelodau.
Penodi'r Prif Gwnstabl	17d	Penodi'r Prif Gwnstabl		Penodwyd Mark Collins yn Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd.
Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17dd	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17e	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliadau Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrhwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl o adnoddau. Yn ogystal, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian penodol ar drefniadau cydweithio, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion. Mae'r PSA yn cymryd rhan yn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sydd yn ystyried agweddau gwerth am arian yn rheolaidd.
		Cydymffurfriad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Mae'r sgôr cynnal a chadw arfaethedig statudol wedi cynyddu 5%, sy'n gynydd sylweddol. Mae'r Asesiadau Risg Tân yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cynyddu cydymffurfiaeth yn y cyfnod nesaf. Mae tua 70% o'r profion Trydan penodedig wedi'u cwblhau, a bydd hyn yn cynyddu ein cydymffurfiaeth ymhellach.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Mae'r grŵp Cynaliadwyedd wedi'i ohirio dros dro oherwydd COVID-19. Â nifer o aelodau staff yn dychwelyd i'r swyddfeydd yn dilyn y cyfyngiadau symud, ym mis Gorffennaf, dychwelodd ein costau trydan i lefelau arferol, fodd bynnag, yn ystod deufis olaf Chwarter 2, yr ydym yn gweld cwmp sylweddol mewn costau gan fod nifer o aelodau staff wedi dychwelyd i weithio gartref er mwyn cynnal ymbellhau cymdeithasol yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth a chyflwyno cyfyngiadau symud lleol. Fel cynrychiolaeth o'r arbedion a wnaed ar ein costau trydan, mae'r biliau wedi lleihau o'r symiau canlynol ym mhob mis yn ystod y Chwarter hwn: Gorffennaf - 10%, Awst - 5% a Medi - 7%
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Yr ydym yn parhau i weithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datblygu prosiectau o dan y buddsoddiad cychwynnol.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Mae cyfleoedd nawdd dal yn cael eu ceisio ar draws yr ardal heddlu, ond mae hyn wedi arafu oherwydd y sefyllfa bresennol o ran COVID-19. Byddwn yn ailgydio yn hyn ar ôl mis Medi fel blaenoriaeth.

		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		Cynhaliwyd adolygiad llawn o bob cofnod gan berchnogion risg ym mis Medi. Er bod rhai risgiau pwysig wedi'u codi ganol Mawrth a mis Ebrill, mae amser a'r mesurau a roddwyd mewn grym wedi lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sylweddol. Er bod y risgiau hyn dal yn berthnasol, ni theimlir eu bod yn peri unrhyw risg sylweddol i'r sefydliad ar hyn o bryd. Gofynnwyd i dîm Gweithredol SCHTh ystyried 24 risg i'w rhyddhau o'r gofrestr. Cymeradwywyd hyn. Risgiau'n ymwneud ag ystadau oedd y rhain yn bennaf, ac yn cwmpasu pynciau megis cyflenwi nwyddau gydag ansicrwydd argaeledd.
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae amcanion datblygu ar gyfer 2020/21 yn cael eu gosod ar hyn o bryd ar gyfer tîm SCHTh. Mae cyllideb hyfforddi benodol mewn grym er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol.
Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill	17f	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru		Mae lle pendant i gydweithio ar agenda Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu cydweithio i weld pa un ai a yw'r mwyaf yn cael ei wneud o gyfleoedd, a pha un ai a oes modd gwneud mwy. Ystyriwyd yr adroddiad ym Mhlismona yng Nghymru ym mis Medi 2020, sy'n cael ei gefnogi gan gynllun gweithredu a fydd yn cael ei fonitro.
		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Cymeradwywyd y cynnig a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Swyddfa Gartref, a rhoddwyd £195,000 ar gyfer datblygu'r prosiect Strydoedd Mwy Diogel gyda phartneriaid yn Llanelli.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio.		Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Mae'r ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwyntiedig tuag at graffu ar gydweithio. Mae Blaenraglen Waith mewn grym ar gyfer tymor CHTh fel cadeirydd i graffu ar amrediad o drefniadau cydweithio. Wrth drosglwyddo i SCHTh De Cymru ym mis Gorffennaf 2020, cytunwyd y dylai'r trefniadau presennol aros ac y dylid eu cryfhau ymhellach.

<p>Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith</p>	<p>17ff</p>	<p>Gweithio gyda'r Heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, gan fodloni'r amcanion ynddo.</p>	<p>Ar ôl ymgymryd ag ymagwedd fwy digidol yn ystod Ch2, yr ydym mewn gwell sefyllfa i ddiweddarau a datblygu ein Strategaeth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni yn ystod Ch3. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei hyrwyddo mewn trafodaethau gyda chydweithwyr HDP yn ystod Ch3 yn y Bwrdd Cysylltu Cymunedau. Yr ydym hefyd wedi creu calendr o weithgareddau ymgysylltu ar gyfer Medi-Rhagfyr 2020 er mwyn cefnogi'r Cynllun Gweithredu, a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau wrth i gyfleoedd ymgysylltu godi.</p> <p>Cynrychiolwyr lleol mewn amryw o rolau sy'n cynorthwyo CHTh i graffu ar HDP yw gwirfoddolwyr. Yn ystod Ch2, cynhalïom ymgyrch recriwtio ar gyfer y rolau gwirfoddoli hyn yn SCHTh – mae gwaith yn parhau yn Ch3.</p> <p>Yn ystod Ch2, cynorthwyom Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i hyrwyddo eu Harolwg Diogelwch y Ffyrdd – arolwg ymgysylltu cenedlaethol i ddeall canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch y ffyrdd a gorfodi. Cwblhaodd 71 o breswylwyr ardal Dyfed-Powys yr arolwg.</p> <p>Cyfarfu CHTh â'i Lysgenhadon Ifainc unwaith yn ystod Ch2. Trafodasant nifer o gyfleoedd i bobl ifainc lleol fod yn rhan o graffu ar wasanaethau'r heddlu a dylanwadu ar benderfyniadau: Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn, cyfleoedd i fod yn rhan o waith craffu SCHTh, eu presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, cynrychiolaeth ieuencid ar y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar y Cyd, a gweithio gyda Thim Dysgu a Datblygu HDP i ddatblygu fideo sy'n gysylltiedig â chyswllt yr heddlu â phobl ifainc. Tynnodd y Llysgenhadon Ifainc sylw at y ffaith bod angen i'r Fforwm fod yn fwy cynrychioladol gydag aelodaeth ehangach. Gan weithio mewn partneriaeth â HDP, bydd ymgyrch recriwtio ar gyfer Llysgenhadon Ifainc yn digwydd yn ystod Ch3.</p> <p>Defnyddiom Ch2 i ddatblygu'r gwaith ar Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys; datblygu'r cylch gorchwyl, dogfennau cyfreithiol, ymgysylltu â phartneriaid i drafod gweithgarwch ymgysylltu, cynllunio gweithgarwch ymgysylltu a chyflwyno'r cynnydd uchod i'r CHTh, PG a phartneriaid BCTLI. Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei gyhoeddi yn ystod Ch3 pan fydd gweithgarwch ymgysylltu â dioddefwyr yn cychwyn. Bydd y rhai sydd wedi'u heffeithio gan drosedd yn cael cyfle i graffu ar wasanaethau dioddefwyr lleol a dylanwadu ar benderfyniadau.</p> <p>Yn ystod Ch2, dechreuodd CHTh ryddhau ei "Uchafbwyntiau'r Wythnos..." ar gyfryngau cymdeithasol: Cyfle i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'i waith. Y negeseuon wythnosol hyn sydd wedi cyflawni'r nifer mwyaf o argraffiadau ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cyhoeddwyd dau rifyn o Gylchlythyr CHTh. Yn rhifyn Gorffennaf 2020, rhoddodd y CHTh wybod i'w ddarllenwyr am ei waith yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys diweddiariadau/adborth am y Ganolfan Blismona a Dalfa yn Llanelli yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, a gwybodaeth am y broses Cyllidebu Cyfranogol. Mae rhifyn Medi 2020 yn edrych nôl ar weithgareddau Gorffennaf-Awst, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2019/20, ac erthygl nodwedd newydd lle mae aelodau o dîm CHTh yn dweud wrth y darllenwyr yn eu geiriau eu hun am yr heriau y maent wedi'u hwynebu ers COVID-19.</p> <p>Yr ydym wedi hyrwyddo'r Adroddiad Blynyddol, sydd ar gael</p>
---	-------------	---	--

mewn sawl fformat, a hysbysu ein cymunedau lleol sut y gallant gael mynediad i'r Adroddiad er mwyn cael gwybod mwy am y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith yn parhau yn Ch3.

Cynhaliodd y CHTH gyfarfod cyhoeddus rhithwir fel rhan o'i Ddiwrnod Ymgysylltu Cymunedol ddydd Gwener 10 Gorffennaf, gan wahodd Uwch-arolygydd Lleol HDP. Roedd modd iddynt roi gwybod i gynrychiolwyr cymunedol lleol am y gwaith y mae HDP yn ei wneud yn yr ardal lleol, gyda ffocws penodol ar blismona yn ystod y pandemig. Rhoddir cyfle i aelodau o'r gymuned lleol gwrdd â'r CHTH ac uwch swyddogion HDP.

Ym mis Awst 2020, ymwelodd CHTH â Chastellnewydd Emlyn. Cyfarfu â chynghorwyr lleol, preswylwyr a pherchnogion busnes er mwyn trafod y camerâu TCC sy'n cael eu gosod yn yr ardal. Hysbysodd y gymuned am ei addewid i ailfuddsoddi mewn TCC, gan roi gwybodaeth iddynt am y prosiect a thrafod materion lleol.

Pan dorrodd y newyddion ym mis Medi 2020 y byddai safle milwrol ym Mhenalun yn cael ei ddefnyddio i gartrefu ceiswyr lloches, ysgrifennodd CHTH lythyr agored at yr Ysgrifennydd Cartref. Hyrwyddom y llythyr cyhoeddus hwn ar ein gwefan, drwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg; tryloywder o ran barn CHTH a'r camau a gymerwyd ganddo.

Ym mis Medi 2020, aeth CHTH i gyfarfod rhithwir gyda Chyngor Tref Porth Tywyn hefyd, lle y trafodwyd pryderon a materion plismona lleol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynyddu hyder y cyhoedd yn yr heddlu wrth i'r gymuned lleol gael y cyfle i geisio atebion gan uwch swyddogion. Cawsant eu sicrhau ynghylch materion lleol a rhannu adnoddau'r heddlu.

Yr ydym hefyd wedi defnyddio Ch2 i gynllunio a pharatoi ar gyfer eitem newydd – Clonc gyda'r Comisiynydd – a fydd yn cychwyn yn ystod Ch3, ac a fydd yn gweld CHTH yn cyfweld â'r Prif Gwnstabl ac unigolion allweddol eraill, er mwyn rhoi gwybod i'n cymunedau lleol am y gwaith y maent yn ymgymryd ag ef. Bydd aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle i ddweud eu dweud yn ystod y sesiynau hyn, a holi cwestiynau.

Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau

Nododd CHTh a'r Llysohadon Ifainc fod angen i'r Fforwm Ieuenctid ehangu ei aelodaeth er mwyn dod yn fwy cynrychioladol o'n cymunedau lleol. Bydd recriwtio'n digwydd yn Ch3.

Cyfarfu CHTh â Mynediad Cymru i ddeall menter newydd sydd ar fin cael ei lansio yn yr ardal heddlu sy'n gysylltiedig ag anabledd yn well, a sut y gall ef a HDP weithio gyda nhw. Mae gwaith yn parhau i mewn i Ch3 wrth i'n Swyddog Ymgysylltu gynnal cyswllt agos â Mynediad Cymru.

Cyfarfu'r CHTh ag Ameer Rana-Davies, a soniodd wrth y CHTh am ei waith mewn ysgolion o gwmpas ymwybyddiaeth troseddau casineb a hiliaeth; er mwyn trafod sut y gallem weithio gydag ef yn benodol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn ystod Ch3. Cyfarfu CHTh ag Uzo Iwobi o Gyngor Hil Cymru, sydd wedi arwain at drafodaethau pellach o gwmpas trefnu cynrychiolaeth o Ganolfan Pobl Ifainc Cyngor Hil Cymru yn Sir Gaerfyrddin ar y Fforwm Ieuenctid.

Mae SCHTh wedi gweithio gyda Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Iaith yr Heddlu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i fonitro cynnydd yn erbyn yr Amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Yr ydym wedi parhau â'n hymagwedd ddigidol tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd. Ar y Gofrestr Risg, yr ydym wedi tynnu sylw at sut y bydd ymgysylltu / cyfathrebu drwy ffyrdd digidol yn golygu na fydd gan rai cymunedau lleol gymaint o gyfle i ymgysylltu â'r CHTh yn yr amgylchedd presennol. Yr ydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu digidol drwy'r wasg yn y gobaith y bydd yn cyrraedd y gymuned ehangach, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r ffaith y gall preswylwyr ddefnyddio eu ffonau i ymuno â thrafodaethau ar-lein.

Yn fwy diweddar, mae CHTh wedi cynnal ambell gyfarfod wyneb yn wyneb, yn ogystal ag ymweld â Chastellnewydd Emlyn yn bersonol tra bod camerâu TCC yn cael eu gosod. Roedd hyn yn sicrhau bod cynghorwyr lleol a pherchnogion busnes/preswylwyr yn cael cyfle i siarad â'r CHTh yn bersonol.

Yn ogystal, agorodd CHTh y Ganolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion yn Llanelli, lle y gwerthfawrogydd ei bresenoldeb gan bawb. Yn Ch3, byddwn yn parhau i addasu a datblygu ein hymagwedd ymgysylltu, gan ddibynnu ar gyfyngiadau lleol a newidiadau o ran y pandemig, gan ystyried cyfleoedd amgen.

Yr ydym yn parhau i gynnwys gwybodaeth ar ein gwefan/cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ynghylch sut y gall cynrychiolwyr cymuned/y cyhoedd gysylltu â'r CHTh a'i ddim yn ystod y cyfnod hwn.

Yr ydym bob amser yn edrych ar ddod o hyd i ddulliau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau y gall y gynulleidfa ehangach gael mynediad at wybodaeth am waith CHTh. Un o'r prif gyhoeddiadau yn ystod Ch2 oedd Adroddiad Blynyddol 2019/20 CHTh, a gyhoeddwyd ar sawl ffurf wahanol er mwyn sicrhau ei hygyrchedd: yn Gymraeg a Saesneg; fel dogfen PDF i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o'n gwefan; copïau papur sydd ar gael ar gais ac mewn digwyddiadau; a chynrychiadau fideo o adrannau gwahanol o'r adroddiad sydd wedi'u

			<p>datblygu a'u postio ar ein cyfrif YouTube ac sydd ar gael i'r cyhoedd eu gwyllo.</p> <p>Mae Cylchlythyr CHTh ar gael yn Gymraeg a Saesneg, yn electronig ac ar bapur.</p> <p>Anfonir pob datganiad i'r wasg gan y CHTh i bob cyswllt yn y cyfryngau sydd, yn eu tro, yn cyhoeddi ein newyddion yn electronig ac mewn papurau newydd. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi ein datganiadau i'r wasg ar ein gwefan ac yn cyfeirio'n dilynwr ar gyfryngau cymdeithasol yn uniongyrchol at erthyglau ar-lein drwy ein negeseuon.</p>
	Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon		Dim sylwadau
	Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu		<p>Bu'r chwarter hwn yn arbennig o brysur o ran rheoli'r cynllun gwirfoddolwyr. Mae nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd o bryder, fodd bynnag, cymerwyd camau lliniaru. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio llawn drwy gydol mis Medi. Anogwyd ceisiadau i ymuno â'n Cyd-bwyllgor Archwilio, y Panel Sicrhau Ansawdd, y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a'r Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid. Mae hyn wedi gweld rhai ceisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, felly disgwylir y bydd niferoedd yn cynyddu drwy'r chwarter nesaf.</p> <p>Yn gynnar ym mis Hydref, gweithredwyd dychweliad cam wrth gan i ymweliadau corfforol â dalfeydd. Mae'r cynllun nawr yn cynnig dull cyfunol o alwadau annibynnol a gynhelir gan wirfoddolwyr, ymweliadau "traddodiadol" a hap samplu rheolaidd o gofnodion dalfa. Mae hyn yn sicrhau bod y Comisiynydd yn parhau i ryddhau ei swyddogaeth statudol yn drylwyr ac y bydd y cynllun yn parhau pa beth bynnag yw'r cyfyngiadau a weithredir yn y dyfodol o ganlyniad i COVID-19.</p> <p>Mae Ymweliadau Lles Anifeiliaid wedi ailgychwyn, ac mae'r Panel Sicrhau Ansawdd wedi ymgymryd ag un ymarfer craffu gan ddefnyddio llwyfan ar-lein.</p>

		Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddiodefwyr a phobl fregus		<p>Mae dychweliad Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gyda mewnbwn gan bob gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n arddangos gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn parthau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Prosiect Gweithredu Dioddefwyr yr Heddlu wedi ymchwilio i'r materion amlwg â dirywiad ansawdd bywyd yr adroddwyd amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaeth Goleudy – camgymeriad oedd hyn o ran y ffordd yr oedd y data'n cael ei ddadansoddi a'i arddangos, ac mae wedi'i unioni yn awr. Mae adroddiadau perfformiad yn y dyfodol yn cynnwys dull diwygiedig o arddangos cynnydd ar y mesur hwn.</p> <p>Ni dderbyniwyd cwynion. Adolygwyd y prosesau cwyno ar gyfer pob gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu yn ystod cyfarfodydd monitro Ch1 a byddant yn ffurfio rhan o'r cylch archwilio blynyddol yn y dyfodol.</p> <p>Ni werthuswyd unrhyw dendrau yn ystod y chwarter hwn, ond mae dal cwestiynau craidd mewn templed.</p> <p>Nid oes data wedi'i gipio eto ar gyfer y dychweliad canol blwyddyn. Nid oes adborth wedi'i dderbyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn dychweliad diwedd flwyddyn 2019/20 ac nid oes ymateb wedi'i dderbyn i nifer o ymholiadau a godwyd â'r canllawiau. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi canllawiau neu amserlenni eto ar gyfer proses 2020/21. Nid yw asiantaethau partner wedi llwyddo i flaenoriaethu cipio data oherwydd effaith COVID-19 (e.e. llysoedd ddim yn eistedd, felly does dim data ar gael mewn perthynas â'r defnydd o Ddatganiadau Personol Dioddefwyr ac ati). Mae partneriaid hefyd yn holi am ddiben a bwriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r data a gipiwyd ar gyfer trafodaeth barhaus ar lefel leol a lefel genedlaethol.</p>
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17g	Fel y nodir yn 17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i fynd i'r afael â pherfformiad Comisiynydd yr Heddlu a	17ng	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		<p>Pob blwyddyn, mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddau – arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) yn asesu sut y mae Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol ar gyfer tryloywder. Mae'r Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau hynny y bernir eu bod yn foddhaol yn derbyn y "Nod Ansawdd Agored a Thyloyw" bob blwyddyn. Cyflwynwyd cais 2021 ddiwedd Medi, ac o'r herwydd, mae adolygiad manwl llawn wedi'i gynnal ar wefan SCHTh.</p> <p>Ceir manylion llawn am y Gofynion Cyhoeddi Statudol ar ein gwefan.</p>
		Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd		Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder yn dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a rhyddineb hygyrchedd i bawb.

Throseddu a'r Prif Gwnstabl		Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg	<p>Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu cyn y bydd unrhyw beth yn cael ei chyhoeddi, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un fath.</p> <p>Yn ddiweddar, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei adroddiad blynyddol, a oedd yn cynnwys y cyfnod cyn COVID-19. Hefyd, cyhoeddwyd canllaw ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog. Nid yw hyn yn cynnig unrhyw ddatrysiadau hawdd, ac mae'n cyfeirio at dechnolegau gwahanol y gellid eu defnyddio. Mae cost yn gysylltiedig â phob un o'r technolegau hyn.</p> <p>Fodd bynnag, maen nhw'n edrych ar ddatblygu rhywbeth o fewn Microsoft Teams, ond nid yw ar fin digwydd. Mae'r Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformio'n monitro hyn er mwyn sicrhau bod SCHTh yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau a fydd yn ein cynorthwyo.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r swyddfa'n defnyddio Zoom, sy'n ein galluogi i gynnig gwasanaeth cyfieithu yn ystod cyfarfodydd rhithwir.</p>
		Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol	<p>Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth gywir am wasanaethau cyfredol, ac mae wedi'i hadolygu fel rhan o'r paratodau ar gyfer y Wobr Tryloywder. Mae erthyglau crynodeb un tudalen yn cael eu cynhyrchu a'u cyfieithu ar hyn o bryd ar gyfer pob gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu. Ceir dolen i'r wefan yn y Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr.</p> <p>Roedd erthyglau a rannwyd yn y wasg, ar y wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod Ch2 yn atgyfnerthu negeseuon mewn perthynas â'r pandemig COVID-19. Roedd straeon newyddion cadarnhaol yn canolbwyntio ar gynnydd a wnaed o ran ôl-groniadau llysoedd Ynadon.</p> <p>Nid oedd erthyglau mewn cyhoeddiadau cenedlaethol yn Ch2 (cyflawnwyd y targed yn Ch1).</p> <p>Mae pob cytundeb yn cynnwys gofyniad safonol ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau. Mae cyfarfodydd gweithredu gwasanaethau'n cynnwys ffocws ar gynlluniau cyfathrebu, a gwahoddir y tîm Cyfathrebu Corfforaethol. Mae'r tîm Comisiynu wedi cysylltu darparwyr â thîm Ymgysylltu CHTh er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu huchafu. Ymddangosodd rhai darparwyr yn fideo adroddiad blynyddol CHTh. Bydd hyn yn ymddangos yn y cynlluniau archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.</p>
Cydymffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	17h	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddu	<p>Mae'r CHTh wedi mynd i bob cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu, ynghyd â swyddogion statudol – y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol. Cyfarfodydd rhithwir oedd y ddau gyfarfod diwethaf a drefnwyd.</p>
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau	<p>Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon, yn unol â'u ceisiadau. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolwyr o'r Panel Heddlu a Throseddu ar fforymau eraill, megis Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, y Bwrdd Comisiynu a'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Yn fwy diweddar, mae SCHTh hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ceisiadau am wybodaeth gan is-grwpiau'r Panel er mwyn cefnogi eu pwyllgor craffu.</p>

		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr. Mae trafodaethau'n cynnwys y cynllun blynyddol ar gyfer craffu.
Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol	17i	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		Fel uchod, mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019 / 2020 wedi'i gyhoeddi, ei rannu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol, a'i hyrwyddo ar ein gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17l	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Derbyniwyd dwy gŵyn yn erbyn y PG yn ystod y chwarter hwn – mae'r ddwy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Disgwylir eglurhad gan yr achwynydd ar gyfer un gŵyn, felly nid yw wedi'i chofnodi yn unol ag Atodlen 3 y tro hwn.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Ni dderbyniodd SCHTh unrhyw achosion goruchwyllo newydd yn ystod y chwarter hwn. Ymrwymodd y CHTh i ysgrifennu i'r PG ar ran Mr Jeremy parth: anfodlonrwydd â'r adran arfau saethu, gyda golwg ar hwyluso cyfarfod rhwng yr heddlu a Mr Jeremy (nid goruchwyllo).
		Craffu ar y ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Roedd Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth SCHTh a staff Adran Safonau Proffesiynol (ASP) yr Heddlu'n bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 18 Medi 2020. Y camau sy'n deillio o'r cyfarfod hwnnw yw: 1. Y PS i adolygu nifer y cwynion sydd wedi'u cyfeirio'n anghywir i SCHTh dros yr ychydig fisoedd nesaf er mwyn asesu pa un ai a yw'r cyhoedd yn cael traferth dod o hyd i'r manylion cyswllt cywir ar gyfer yr ASP. 2. Y PGC i sicrhau bod pryderon CHTh ynghylch cyswllt cyntaf â'r Heddlu drwy'r rhif 101 yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Aur newydd sy'n cael ei ffurfio er mwyn mynd i'r afael â brysbennu galwadau gan y cyhoedd. 3. CHTh a'r DBG i drafod canlyniad gwrandawriad ar 16 Medi y tu allan i'r Bwrdd Plismona. 4. Trafod y Fframwaith ASP newydd a gwersi a ddysgwyd ym Mwrdd Plismona mis Ionawr. 5. Y PS, NH a'r Heddlu i drafod y Gwasanaeth Sancus cyn ystyried y cytundeb ym mis Chwefror 2021.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf Heddlu a Throseddu 2017		Er bod 9 wedi arwain at ganlyniad a gynhaliwyd, roedd 4 o'r rheiny'n cynnwys gwersi a ddysgwyd/argymhellion. Bydd dau o'r argymhellion hynny (unfath) yn cael eu trafod gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ystod y cyfarfod chwarterol nesaf gyda'r Heddlu, a bydd un argymhelliad yn cael ei ddatblygu gan Reolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad SCHTh gydag Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yr Heddlu, gyda golwg ar greu dogfen ganllaw/polisi newydd.
Ni ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Gwnaed mân ddiwygiad i'r FFLIC o fewn y chwarter diwethaf fel rhan o adolygiad / diweddariad o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.
Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff	19	Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		Diweddarwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y chwarter diwethaf.

		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		<p>Adroddwyd am 5 achos posibl o dorri rheoliadau data yn ystod y chwarter hwn. Cymerwyd camau adfer yn syth a rhoddwyd geiriau o gyngor. Er bod pob achos o'r fath yn cael ei drin yn ddifrifol iawn, roedd y canlyniadau ym mhob un o'r achosion hyn yn gyfyngedig, ac ni wnaed unrhyw niwed i'r gwrthrych data, felly nid oedd angen adrodd amdanynt wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.</p> <p>Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Derbyniwyd 9 cais Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y chwarter hwn. Nid oedd SCHTh yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr un o'r ceisiadau hyn, ac fe'u hanfonwyd ymlaen at yr heddlu gyda chaniatâd y ceisydd oherwydd roedd posibilrwydd y byddent yn dal y wybodaeth.</p> <p>Mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth dal yn uchel iawn ar yr agenda ar gyfer SCHTh wrth ystyried diogelu data. Gofynnwyd i bob aelod staff gwblhau modiwlau dysgu ar-lein, a derbyniasant sawl e-bost wrth y Rheolwr Perfformiad a Chydymffurfiaeth mewn perthynas ag e-byst twyllodrus.</p>
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau		<p>Mae Fframwaith 2020/21 wedi'i gyhoeddi ar y wefan.</p> <p>Cyfarfu'r Bwrdd yn Ch2, gan dderbyn trosolwg o'r Gwasanaeth Ôl-drafod ar gyfer Pobl Ifainc Coll a ddarperir gan Llamau. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Bwrdd, mae'r CC wedi codi rhai materion i'r adran Gaffael fynd i'r afael â nhw mewn perthynas â chraffu parhaus ar gydymffurfiaeth darparwyr â gwiriadau diwydrwydd priodol.</p> <p>Mae cofrestr cytundebau mewn grym, ac mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Adolygwyd y gofrestr ddechrau'r flwyddyn er mwyn dadansoddi effaith gohirio etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae gan bob cytundeb opsiynau i estyn, ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer diogelu ar draws newidiadau Tymor.</p> <p>Ystyriwyd meysydd blaenoriaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol pan ddatblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu gyntaf. Mae'r CC yn gysylltiedig â chyfarfodydd paratoi ar gyfer y Cynllun newydd, a bydd yn sicrhau cyswllt â rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae cynlluniau gwaith a blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u rhannu â'r swyddog Polisi i hysbysu datblygiad Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.</p> <p>Mae pob gwasanaeth a gomisiynir yn darparu cyswllt i flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Cynhwysir hyn o fewn y broses gwerthuso tendrau ar gyfer gwasanaethau newydd. Cynhwysir effaith darpariaeth gwasanaeth yn erbyn cyflenwi'r Cynllun yn yr adroddiad i'r Panel, gan ddangos cynnydd yn erbyn y Cynllun.</p> <p>Mae blaenoriaethau'r BCTLI ar gyfer 2019/20 wedi'u dwyn ymlaen. Roedd cyfarfod Hydref yn canolbwyntio ar Reoli Troseddwyr (Rheoli Troseddwyr yn Integredig ac atal ieuencid). Bydd cyfarfod Ionawr yn canolbwyntio ar ddata perfformiad gan bob partner. Bydd aelodau'r BCTLI yn aelodau ymgynghori allweddol o ran datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.</p>

		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		<p>Telir arian cyfatebol o gyllideb graidd CHTh ar gyfer grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cyfanswm y grant ar gyfer 20/21 yw £605,585 o gyllideb comisiynu o £1.56 miliwn. Gan hynny, mae'r CHTh yn darparu dros 60% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer gwasanaethau. Nodir hyn yn nychweliadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ogystal â hyn, mae SCHTh wedi sicrhau £140,000 o arian penodol COVID-19 ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn yr ardal, a £55,000 arall ar gyfer darpariaeth Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol dros gyfnod o 2 flynedd.</p> <p>Mae CHTh a'r CC dal yn cwrdd yn rheolaidd â rheolwyr PDC a rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau leuenticid ac Atal, yn enwedig yn ystod y pandemig, er mwyn adolygu trefniadau a monitro tensiynau cymunedol. Mae'r CC dal yn cynrychioli Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru mewn adolygiad cenedlaethol o rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn llywodraethu ac ariannu'r Gwasanaeth Troseddau leuenticid ac Atal. Mae cyfarfod wedi'i drefnu fis Hydref er mwyn trafod effaith barhaus COVID-19 a chanlyniadau a gyflawnwyd drwy brosiectau a ariennir gan y CHTh. Bodlonwyd telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cydnabod bod rhai o'r telerau ac amodau a roddwyd ar gyfer y pandemig COVID-19 wedi llacio, er enghraifft, cyflwyno gwasanaethau dioddefwyr dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn dysgu'r gwersi o'r newid ymagwedd hwn, gyda rhai ymagweddau'n parhau fel arfer da. Cynhwyswyd telerau ac amodau ychwanegol mewn perthynas â chyllidebu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais. Rhywiol adeg COVID-19 mewn cytundebau grant gyda phob darparwr.</p> <p>Mae'r CC wedi paratoi Protocol Rhannu Gwybodaeth er mwyn galluogi Goleudy i rannu data mewn perthynas â dioddefwyr sydd wedi derbyn canlyniad yn y llys â'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol er mwyn i ddioddefwyr wneud cynnig gwybodus o gyfiawnder adferol yn unol â gofynion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Ar hyn o bryd, mae hyn yn disgwyl cymeradwyaeth Adran Wybodaeth yr Heddlu. Mae cyfiawnder adferol yn faes sydd angen trafodaeth a ffocws pellach ar lefel Cymru gyfan.</p> <p>Ystyriwyd meysydd blaenoriaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol pan ddatblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu gyntaf. Mae'r CC yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd paratoi ar gyfer y Cynllun newydd, a bydd yn sicrhau yr ymgysylltir â rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Rhannwyd cynlluniau gwaith a blaenoriaethau'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol â'r swyddog Polisi er mwyn hysbysu datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.</p>
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		<p>Mae proses penderfyniadau ariannu newydd wedi'i datblygu, sy'n cipio'r holl gamau sy'n cael eu prosesu wrth gyflenwi'r ddarpariaeth grantiau trosedd ac anhrefn. Bydd y prosesau newydd yn cael eu rhannu â'r Heddlu ar gyfer ceisiadau mewnol.</p>

		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn yn 2019/20		Buddsoddiwyd £60,000 ar draws y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datblygu prosiectau diogelwch cymunedol. Mae £140,000 yn cael ei fuddsoddi ar draws yr 14 ardal TPB gyda dyraniad o £10,000 tuag at brosiectau cymunedol drwy'r broses Cyllidebu Cyfranogol, sy'n cael ei chynnal gan y timoedd plismona bro a phartneriaid lleol.
		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		Mae proses penderfyniadau ariannu newydd wedi'i datblygu, sy'n cipio'r holl gamau sy'n cael eu prosesu wrth gyflenwi darpariaeth grantiau trosedd ac anhrefn. Bydd y broses newydd yn cael ei rhannu â'r Heddlu ar gyfer ceisiadau mewnol.
Cytundebau cydweithio	20ch	Fel y nodir yn 17f		
Roedd argymhellion yn cynnwys adnodd canolog i weithredu a sicrhau ansawdd canlyniadau trosedd, eglurder ynghylch data a'i gyflwyno, archwilio gweithdrefnau ymchwiliol, sicrhau llwybrau cymorth clir ar gyfer diodefwyr, ceisio adborth gan ddiodefwyr a dynnodd yn ôl a defnyddio hyn i hysbysu cyflenwi gwasanaeth a sicrhau goruchwyliaeth strategol glir o ymgysylltiad diodefwyr.

Mae'r adroddiad isod yn cynnwys ymatebion manwl i bob un o'r argymhellion.

Argymhelliad:

Bod y Panel Heddlu a Throseddau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Yr wyf yn cadarnhau fy mod i wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn ai peidio, ac yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Llofnod:

Dyddiad:

Adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i Aelodau'r Panel Heddlu a Throseddau

Adroddiad cynnydd yn dilyn yr Adolygiad Craffu Dwys i Ddiodefwyr yn Tynnu'n Ôl o fewn Heddlu Dyfed-Powys

1. Diben yr Adroddiad

Yng ngoleuni cyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) i weithredu fel llais diodefwyr a chraffu ar effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys (yr 'Heddlu'), y cynnydd ymddangosiadol yn y defnydd o Ganlyniadau 14 ac 16 ar gyfer troseddau rhywiol a domestig ac achosion unigol y tynnwyd sylw CHTh atynt, cyflawnodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh) adolygiad craffu dwys i diodefwyr yn tynnu'n ôl a'r defnydd o Ganlyniadau 14 ac 16, yn arbennig o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Rhoddwyd yr adroddiad i'r Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2019, a gymeradwyodd pob un o'r argymhellion.

Diben yr adroddiad hwn yw adolygu'r cynnydd a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn argymhellion yr adroddiad yn y 9 mis dilynol.

2. Canlyniad

Canfu'r adroddiad, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019, y canlynol:

- Mae'n amlwg bod diodefwyr yn flaenoriaeth i'r Prif Gwnstabl ac i Heddlu Dyfed-Powys yn ei gyfanrwydd gyda rhai enghreifftiau da o swyddogion yn rhoi amser sylweddol i ymchwilio i ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn argymhell nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu i diodefwyr ac i sicrhau bod y diodefwyr yn wirioneddol ganolog i'r Heddlu
- Mae materion yn ymwneud ag eglurder polisi'r Heddlu a chysondeb a chywirdeb y defnydd o Ganlyniadau yn codi amheuan ynghylch dibynadwyedd y data a ddarperir. Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai cwrmpas y gwaith craffu gynnwys adolygiad o'r Canlyniadau, gan ystyried adnodd canolog i weithredu a sicrhau ansawdd Canlyniadau trosedd.
- Mae'n anodd sicrhau eglurder ynghylch y data perfformiad sy'n ymwneud â diodefwyr yn tynnu'n ôl. Dylai'r Heddlu ddarparu eglurder ar y data a gynhyrchir a'i effeithiolrwydd, a dylai sicrhau bod y rhesymau dros dueddiadau perfformiad ac amrywiad posibl o'r cyfartaleddau cenedlaethol yn cael eu deall a'u dogfennu'n llawn. Ceir cymhlethdodau pellach o ran y trefniadau rhannu data sy'n cyd-fynd â'r wybodaeth hon, sy'n golygu bod craffu gan SCHTh yn arbennig o heriol ac nid yw'n caniatáu tryloywder o ran dangos perfformiad yr Heddlu. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.
- Mae'r Heddlu wedi cydnabod effaith ymchwiliadau hirfaith ar y broses o ymgysylltu â diodefwyr, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr ymchwiliadau sydd ar agor am fwy na 12 mis. Mae angen

gwneud rhagor o waith i gynnal safonau ymchwilio, nid yn unig o ran faint o amser a gymerir, ond hefyd o ran sicrhau y dilynir yr holl arferion gweithdrefnol gorau a bod y dystiolaeth briodol yn cael ei chasglu.

- Mae dioddefwyr yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau cymorth arbenigol. Pan fydd dioddefwyr yn tynnu'n ôl, mae hynny yn bennaf oherwydd rhesymau personol yn hytrach nag oherwydd unrhyw weithgaredd neu segurdod gan yr heddlu. Dylai'r Heddlu ddefnyddio'r data hyn i sicrhau bod y llwybr cymorth gorau ar gael i ddiodefwyr yn ystod eu taith cyfiawnder troseddol.
- Cafodd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth a gynigir ei nodi dro ar ôl tro yn yr adolygiad hwn. Mae un o'r bylchau mwyaf sylweddol yn ymwneud ag iechyd meddwl, a amlygir fel ffactor arwyddocaol yn bron i bob achos o ddiodefwyr yn tynnu'n ôl o'r ymchwiliad. Mae angen i'r Heddlu sicrhau bod swyddogion a gwasanaethau diodefwyr yn cyfeirio diodefwyr at y gefnogaeth briodol er mwyn sicrhau nad yw materion iechyd meddwl yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu taith cyfiawnder troseddol.
- Mae nifer o adolygiadau a digwyddiadau eisoes wedi'u cynnal o fewn yr Heddlu mewn ymgais i ddeall y gwahanol faterion sy'n sail i ddiodefwyr yn tynnu'n ôl. Mae rhai tueddiadau allweddol a ddaw i'r amlwg dros gronoleg yr argymhellion. Nid yw'r rhain yn trosi'n flaenoriaethau gwybodus ar draws cynlluniau gwaith adrannol ar lefel strategol: nid oes unrhyw lywodraethu canolog, dim system lle caiff y gwahanol berchnogion gweithredu eu dwyn i gyfrif, a dim goruchwyliaeth strategol i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau.

3. Y Sefyllfa

Cyfrannodd yr adolygiad at Gynllun Heddlu a Throseddau'r Comisiynydd drwy gefnogi'r blaenoriaethau dilynol:

- Gwella hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys (Blaenoriaeth 1 - Cadw ein cymunedau'n ddiogel)
- Adnabod y rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu cam-drin yr eilwaith... drwy rannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau (Blaenoriaeth 2 – Diogelu pobl Fregus)
- Comisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr sy'n cynnig cymorth emosïynol ac ymarferol i ddiodefwyr cam-drin domestig a rhywiol er mwyn eu helpu i ymdopi a gwella ar ôl eu profiad, yn ogystal â'u cefnogi i sicrhau'r canlyniad gorau posibl drwy'r system cyfiawnder troseddol (Blaenoriaeth 2 – Diogelu pobl Fregus)
- Cefnogi diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol i ddygymod â'u profiad ac i wella ar ei ôl (Blaenoriaeth 3 - Diogelu ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol)
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwasanaeth hygyrch ac ymatebol (Blaenoriaeth 4 - Ymgysylltu â chymunedau)

Nod yr adolygiad oedd nodi:

1. A yw defnydd yr Heddlu o Ganlyniadau 14 ac 16 ar gyfer troseddau domestig a rhywiol yn unol â thueddiadau cenedlaethol, ac a yw'r sail resymegol dros unrhyw wyriadau o ran perfformiad wedi'u deall a'u derbyn
2. A yw'r defnydd o'r Canlyniadau uchod yn nodi unrhyw faterion o ran ymarfer yr Heddlu neu'r daith cyfiawnder troseddol yn ehangach
3. A yw'r Heddlu'n manteisio ar bob cyfle i sicrhau erlyniadau amserol ac effeithiol
4. Effeithiolrwydd yr Heddlu wrth gadw ymgysylltiad dioddefwyr ar gyfer ymchwiliadau
5. I ba raddau y caiff argymhellion o adolygiadau a gomisiynir o fewn yr Heddlu eu monitro a'u llywodraethu
6. I ba raddau y mae canlyniadau gwelliant parhaus yn llywio gwelliant o ran darparu gwasanaethau

Drwy:

1. Nodi polisi presennol yr Heddlu ar gyfer defnyddio Canlyniadau 14 ac 16
2. Nodi'r tueddiadau mewn perfformiad o ran y defnydd o Ganlyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol
3. Cynnal adolygiad llenyddiaeth o adroddiadau presennol a digwyddiadau gwelliant parhaus a'r graddau y gweithredwyd ar yr argymhellion
4. Cyflwyno barn dioddefwyr ac effeithiolrwydd yr Heddlu wrth fynd i'r afael â hi
5. Tynnu sylw at feysydd o arfer dda ac unrhyw feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

4. Dewisiadau a Chanlyniadau

Perfformiad

Mae'n anodd sicrhau eglurder ynghylch y data perfformiad sy'n ymwneud â dioddefwyr yn tynnu'n ôl. Heb hyder yn y data, ni ellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell ddibynadwy i seilio camau gweithredu ac argymhellion arno. Mae hyn hefyd yn arwain at wastraffu adnoddau wrth geisio darparu dealltwriaeth a chyfiawnhad o dueddiadau neu amrywiaethau perfformiad ymddangosiadol o'r darlun cenedlaethol.

Proses, polisi a chanllawiau

Mae'n hanfodol bod polisi mewnol yr Heddlu'n darparu arweiniad cywir a chyson i swyddogion yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Os nad yw swyddogion yn glir ynghylch diffiniadau, ni chaiff y Canlyniadau eu defnyddio'n gywir nac yn gyson. Mae hyn nid yn unig yn creu problem o ran cydymffurfiaeth ond mae hefyd yn codi cwestiynau o bwys am gywirdeb y data y seilir penderfyniadau ac argymhellion gweithredol arnynt.

Cyswllt â'r dioddefydd

Mae'n amlwg bod lefelau sy'n peri gofid o ddyblygu rhwng adrannau a gwasanaethau o ran pwy sy'n cefnogi ac yn diweddar dioddefwyr. Mae hyn yn arwain at ddwy senario sydd yr un mor annymunol; naill ai dioddefydd sy'n cael ei adael heb unrhyw gymorth na gwybodaeth, neu ddioddefydd sy'n cael ei beledu â galwadau ffôn dryslyd gan lu o asiantaethau neu unigolion heb unrhyw eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

Gwasanaethau cymorth

Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth priodol yn ystod eu taith cyfiawnder troseddol. Mae dioddefwyr yn fwy tebygol o barhau i gymryd rhan mewn ymchwiliadau os caiff eu hanghenion eu diwallu o ran cael cymorth i ymdopi ac ymadfer ar ôl effaith y drosedd. Mae'n hanfodol felly bod swyddogion rheng flaen yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y cynnig o wasanaeth i ddiodefwyr yn amserol ac yn gywir. Mae angen i ddiodefwyr deimlo bod ganddynt wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, a'u bod nhw'n gallu eu defnyddio nid yn unig ar adeg yr adrodd, ond hefyd ar unrhyw adeg yn y dyfodol os dymunant wneud hynny. Hefyd, mae angen i'r Heddlu fod yn glir ynglŷn â'r llwybr cymorth a gaiff ei gynnis i ddiodefwyr ar bob cam o'u taith cyfiawnder troseddol.

Iechyd Meddwl

Mae Iechyd Meddwl yn ymddangos o fewn y ddau brif reswm dros ddiodefwyr yn tynnu'n ôl. Tra bo hyfforddiant ar gyfer Swyddogion a Hyfforddwyd ar gyfer Ymchwilio i Droseddau Rhyw yn cynnwys mewnbwn ar iechyd meddwl a rôl Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, mae yna fwlch sylweddol i ddiodefwyr â phroblemau iechyd meddwl sydd heb gael diagnosis ac sy'n is nag unrhyw drothwyon clinigol o ran ble y gellir eu cyfeirio am gymorth.

Er gwaethaf buddsoddiad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddarparu cyfeirlyfr cynhwysfawr i ddiodefwyr, nid yw hwn bellach ar gael ar wefan Goleudy. Mae hyn wedi arwain at fwlch sylweddol i naill ai diodefwyr neu swyddogion wrth ddod o hyd i wasanaethau cymorth priodol sy'n gallu cynnis eiriolaeth iechyd meddwl. Byddai darparu'r cymorth hwn nid yn unig yn helpu diodefwyr i ymdopi'n well ag effaith trosedd ond byddai hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol o barhau i ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

Trosolwg Strategol

Mae'r adroddiad yn nodi bwlch clir o ran trosolwg strategol o brofiadau diodefwyr. Er bod llawer o'r argymhellion sy'n codi o adolygiadau a digwyddiadau blaenorol yn cyfrannu at gynlluniau gweithredu ar y lefel dactegol neu weithredol, nid yw'n ymddangos bod hyn yn trosi'n hawdd i gynllunio strategol. Er bod materion diodefwyr yn cael eu trafod gan Fwrdd y Dioddefwyr a'r Tystion a'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol, nid yw'r byrddau hyn wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n eu galluogi i lywio blaenoriaethau adrannau, megis Cyfathrebu Corfforaethol, Dysgu a Datblygu ac ati, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.

5. Camau Gweithredu ac Adolygu

Cafodd argymhellion yr adolygiad eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer Prosiect Gweithredu Dioddefwyr a gychwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys ym mis Mawrth 2020. Arweiniwyd hyn gan yr Uwch-arolygydd a'r Prif Arolygydd sydd â chyfrifoldeb dros Ddioddefwyr a Thystion. Ceisiodd y prosiect ystyried y gwasanaeth y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei gyflwyno i ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â gweithredu nifer o argymhellion a gyflawnwyd drwy adolygiadau blaenorol. Cychwynnodd y prosiect nifer o is-grwpiau a adroddodd i grŵp Aur strategol gyda'r camau gweithredu yn yr adolygiad craffu dwys yn syrthio o dan y penawdau is-grŵp Rheoli Perfformiad ac Adolygiadau ac Ymagwedd Ymchwiliol a Gweithredol.

Yr oedd yn ofynnol i'r Heddlu roi diweddariad ffurfiol i'r Comisiynydd ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad craffu dwys. Yn ddiweddar, cwblhaodd a chyflenwodd y Prosiect Gweithredu ar gyfer Dioddefwyr ddiweddariad yn erbyn y nodau ac amcanion arfaethedig i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol (noddwr y prosiect) a'r Bwrdd Plismona wedi hynny. Yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 18 Medi 2020, rhoddodd yr Heddlu'r diweddariad canlynol.

	Argymhelliad	Sefyllfa ym mis Medi 2020
1	<p><i>Ystyried adnodd canolog ar gyfer defnyddio a sicrhau ansawdd Canlyniadau troseddau er mwyn sicrhau arfer gyson sy'n unol â'r polisi cenedlaethol</i></p>	<p>Cam Gweithredu 1 Adolygiad Perfformiad a Rheoli'r Prosiect Dioddefwyr oedd <i>Deall 'Canlyniadau' yn well, gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl.</i></p> <p>Daeth yr adroddiad craffu dwys i'r casgliad bod Heddlu Dyfed-Powys yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran gweithredu Canlyniadau 14 ac 16 yn gyson, gyda Ch1 2019/20 yn dangos fod y gwahaniaeth hwn o gwmpas 12.5%.</p> <p>Mae gwaith wedi'i gyflawni gan Arolygydd, gyda chymorth Dadansoddydd Perfformiad a Chofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu. Er bod gan yr heddlu ddefnydd uwch na'r cyfartaledd o Ganlyniad 16 (Drwgdybyn a enwyd wedi'i adnabod), mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yn rhaid edrych ar hyn ochr yn ochr â'r ffaith bod yr Heddlu'n cofnodi tua 20% yn llai o Ganlyniadau 18 (lle nad oes drwgdybyn yn cael ei adnabod) na'r cyfartaledd cenedlaethol.</p>

Yn syml, mae'r cydbwysedd hwn yn nodi bod yr Heddlu'n fwy llwyddiannus o lawer o ran adnabod drwgdybyn, fodd bynnag, maen nhw dal yn wynebu anawsterau tystiolaethol lle na cheir cefnogaeth y dioddefydd, neu mae'r dioddefydd yn tynnu'n ôl.

Ar hyn o bryd, Heddlu Dyfed-Powys yw'r unig heddlu yng Nghymru sydd heb dîm canolog arbenigol ar gyfer gweithredu canlyniadau. Yn 2019/20, cofnododd Dyfed-Powys 32,157 trosedd. O'r rhain, roedd Rhingylliaid URS yn gyfrifol am weithredu'r canlyniad ar gyfer 25,505. Dim ond rhyw 6,000 a weithredwyd gan y Swyddfa Cofnodi Troseddau arbenigol.

Canllaw 64 tudalen yw'r ddogfen Model Sicrhau Ansawdd Data bresennol, o ba un y cynhyrchir canllaw symlach lle y mae'n rhaid i swyddogion gofnodi'r canlyniad cywir ar gyfer pob un o'u hachosion. Mae hon yn broses gymhleth i'r swyddogion gweithredol hynny y disgwylir iddynt gael gwybodaeth eang mewn amryw o feysydd, ac ni allwn fod yn hyderus bod ein cydymffurfiaeth o ran cofnodi Canlyniadau'n gwbl gywir.

Fel enghraifft bellach, cyhoeddwyd adroddiad ym mis Ebrill 2020 mewn perthynas â Chanlyniadau a gwblhawyd o dan 22 (Gweithgarwch dargyfeirio, addysgu neu ymyrryd). Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad mai dim ond 103 o'r 265 trosedd a archwiliwyd oedd wedi'u cofnodi'n gywir. Mae hyn yn rhoi cyfradd cydymffurfiaeth o 38.87%, sy'n llai na'r 95% sy'n ofynnol.

Er y gall fod dadleuon ar gyfer mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer swyddogion, yr awgrym o ddewis yw bod yr **holl** ganlyniadau'n cael eu gweithredu gan dîm canolog arbenigol, gan sicrhau gwell cywirdeb o ran yr ystadegau a gynhyrchir.

Mae gofynion adnoddau posibl wedi'u trafod gyda Chofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu, ac mae'r nodyn briffio (15/05/2020) ar gyfer cofnodi troseddau hollgynhwysol hefyd yn ceisio argymhell fformat gwaredu a chanlyniad canolog. Bydd y tîm prosesau hollgynhwysol yn datblygu sefydlu tîm canolog ar gyfer ymdrin â phob canlyniad trosedd.

2	<p><i>Darparu eglurder ynghylch y data a gynhyrchir a sut y gellir eu defnyddio, yn enwedig sut y gellir eu rhannu â SCHTh a chynulleidfaoedd ehangach</i></p>	<p>Ar hyn o bryd, mae gan y System Rheoli Troseddau Restr Wirio ar gyfer Cau Trosedd wrth weithredu canlyniad trosedd sy'n canolbwyntio ar y drwgdybyn yn bennaf.</p> <p><u>Crime Closure Checklist</u></p> <p>Was a suspect arrested as part of this investigation? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>If Yes, please enter Custody Record number. <input type="text" value=""/> (e.g. CH-000123-2020) <small>Custody and Crime will be automatically linked, if not already</small></p> <p>Is the suspect linked to other crimes? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>If Yes, are any of those crimes still live? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>Has the suspect been RUI'd as part of this investigation? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>Was biometric data obtained from the suspect? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>Does suspect's biometric data need to be retained? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>Has the offender been notified of this outcome? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p>Has the victim been notified of this outcome? <input type="radio"/> Yes <input type="radio"/> No</p> <p><input type="button" value="Save Outcome"/></p> <p>Mae Cofrestrydd Troseddau'r Heddlu wedi rhoi enghreifftiau o Ganlyniadau 14 ac 16 yn cael eu gweithredu pan oedd yn ymddangos fel pe bai dioddefwyr yn cefnogi'r ymchwiliad hyd at adeg pan fyddant, heb reswm, yn tynnu'n ôl, heb unrhyw esboniad gan y swyddog.</p> <p>Er mwyn unioni hyn, mae cwestiynau ychwanegol penodol yn cael eu hychwanegu i gwblhau'r canlyniadau, fel y dangosir isod:</p> <p><u>Canlyniad 14</u></p> <p>Ychwanegwyd y cwestiwn isod, ac mae'n rhaid i swyddogion ei ateb cyn y gweithredu'r canlyniad:</p> <p><i>'Beth yw rheswm y dioddefydd dros wrthod / methu â chefnogi camau gweithredu?'</i></p> <p>Y bwriad yw y bydd hyn yn rhoi'r rheswm ac yn annog swyddogion i ystyried pa un ai a hwn yw'r canlyniad mwyaf priodol.</p>
---	--	---

Canlyniad 16

Er mwyn canfod pam yn union y mae dioddefydd wedi tynnu cefnogaeth yn ôl, bydd y cwestiwn canlynol yn cael ei ychwanegu i'r set:

'Beth yw'r rheswm pam nad yw'r dioddefydd wedi cefnogi'r ymchwiliad, neu wedi tynnu ei gefnogaeth yn ôl?'

Yna, bydd angen blwch testun rhydd er mwyn i swyddogion gwblhau eu hymateb. Bydd hyn yn sicrhau y bydd Goruchwylwyr:

- Yn ystyried anghenion dioddefwyr, gan gynnwys eu dymuniadau mewn perthynas â'r ymchwiliad ac unrhyw erlyniad, er mwyn sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r dymuniadau hynny'n cael eu cipio a'u huwchlwytho i'r adroddiad trosedd. Os nad oes modd cael cofnod ysgrifenedig, neu os yw'r dioddefydd wedi gwrthod rhoi un, gellir ychwanegu cwmpflwch yn esbonio hyn;
- Rhoi rhesymwaith penderfynu clir, cywir a chofnodedig mewn perthynas â chau'r drosedd a gweithredu canlyniad trosedd perthnasol, gan ystyried dolen i'r polisi Gweithredu Canlyniadau Trosedd neu gymorth cof i'w cynorthwyo i benderfynu. Bydd hyn yn sicrhau bod cofnod tryloyw o'r canlyniad trosedd ar gael;
- Dolen i'r Matrics Datrysedd, gan sicrhau bod Goruchwylwyr yn ystyried pob llinell ymholi resymol.

Bydd mabwysiadu adnodd canolog yn sicrhau rhesymoli a chofnodi cyson a thryloyw o ran canlyniadau trosedd, a fydd yn cynorthwyo â hap samplu troseddau â'r wybodaeth a'r data sydd ar gael o adnodd canolog a phenodol.

Bydd goruchwilydd o fewn yr adran / adnodd canolog yn casglu data ac yn cynhyrchu adroddiad misol sy'n amlinellu cydymffurfiaeth â pholisi cenedlaethol a pholisi heddlu y gellir rhannu â SCHTh a chynulleidfaoedd ehangach er mwyn trafod yn ystod cyfarfodydd rheoli perfformiad misol.

3	<p><i>Parhau â'r gwaith o leihau ymchwiliadau hirfaith a allai effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr</i></p>	<p>Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn lleihau ymchwiliadau hir a allai effeithio ar hyder dioddefydd a'i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith parhaus hwn wedi arwain at leihad amlwg yn nifer yr ymchwiliadau hir, yn arbennig rhai sydd dros 12 mis oed.</p> <p>Mae hyn wedi arwain at ymchwiliadau 'byw':</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwng 6 – 12 mis yn syrthio o 348 ym mis Medi '19 i 289 ym mis Mai '20, ac maent yn parhau i syrthio, fel y gwelir yn y ffigurau diweddaraf, sef 254 ym mis Awst '20. • Ymchwiliadau dros 12 mis yn syrthio o 229 ym mis Medi '19 i 149 ym mis Mai '20 ac yn parhau â'r duedd i lawr â ffigwr o 136 ym mis Awst '20. <p>Ar draws yr heddlu, mae Timoedd Uwch Reoli'n cynnal adolygiadau trosedd rheolaidd, gan graffu ar y rhai sydd dros 3 mis, 6 mis a 12 mis oed yn ôl eu trefn. Ers ail wythnos mis Medi, mae Arolygwyr yn derbyn manylion troseddau dros gyfnod o fis ar gyfer eu hardaloedd unigol drwy e-bost. Yn ogystal, mae'r troseddau hyn yn cael eu trafod a'u craffu o fewn cyfarfodydd rheoli perfformiad rhanbarthol a rhai'r heddlu, gan sicrhau bod y lefel briodol o gefnogaeth ac adnoddau'n cael eu gweithredu iddynt. Mae Timoedd Uwch Reoli'n grymuso goruchwylwyr, gan roi'r hyder iddynt wneud penderfyniad effeithiol ond amddiffynnol mewn perthynas ag ymchwilio i droseddau a'u datblygu.</p> <p>Mae dal angen gwella ymchwiliad trosedd effeithiol ac effeithlon drwy weithredu THRIVES yn llymach o'r alwad gychwynnol i gwblhad ymchwiliad.</p> <p>Yn ogystal â sicrhau cyflwyno rolau arbenigol yn ystod cam cynnar, dylai swyddogion ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddynt gan wasanaethau sydd wedi'u comisiynu er mwyn cynnal sgwrs reolaidd gyda'r dioddefydd i sicrhau ei gysylltiad parhaus ac osgoi dadrithiad a chiliad oddi wrth y broses ymchwilio. Mynegwyd hyn yng nghynhadledd yr Adran Ymchwiliadau Troseddol, ac amlinellwyd y manteision ar gyfer dioddefwyr a swyddogion.</p>
---	--	---

		<p>Er mwyn cynorthwyo'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu a lleihau amserlenni mewn perthynas ag ymchwiliadau electronig, cyflwynwyd hyrwyddwyr neu archwilwyr rhanbarthol mewn perthynas â chwblhau archwiliadau electronig. Mae hyn wedi lleihau ymchwiliadau hir posibl, cynnal hyder dioddefwyr, ac uchafu adferiad.</p> <p>Mae'r pandemig COVID-19 wedi gweld yr Heddlu'n defnyddio gwasanaethau Swyddogion Ymholiadau Ymateb, a thrwy fabwysiadu'r Canllawiau Ymchwiliadau Pen Desg, mae hyn wedi sicrhau datblygiad effeithiol ac effeithlon ymchwiliadau addas.</p>
4	<p><i>Archwilio'n rheolaidd y gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ymchwilio sy'n debygol o effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan gynnwys cyfweiliadau wedi'u recordio ar fideo, camerâu corff a theledu cylch cyfyng y mae CHTh wedi buddsoddi ynddynt ledled yr ardal Heddlu</i></p>	<p>Mae archwilio'r defnydd o Gyfweiliadau Fideo, Camerâu Corff a Theledu Cylch Cyfyng yn anodd iawn heb adolygu pob ymchwiliad yn benodol a'u cofnodion ymholiadau trosedd unigol, heb unrhyw arwydd ar hyn o bryd sy'n tynnu sylw at y defnydd penodol o'r swyddogaethau hyn mewn ymchwiliad troseddol.</p> <p>Mae troseddau'n cael eu trafod yn ddyddiol yn ystod cyfarfodydd rheoli'r heddlu a rhai rhanbarthol, gan sicrhau datblygiad a phennu priodol. Mae THRIVES yn cael ei fabwysiadu er mwyn pennu'r adnodd mwyaf priodol ar gyfer ymchwilio i drosedd, gan sicrhau y defnyddir adnoddau arbenigol i gynorthwyo mewn ymchwiliadau ac ynysu dioddefwyr yn dystiolaethol (h.y. lleoli Cyfwelwyr Arbenigol Lefel 2 yn ystod Cyfweiliadau Fideo).</p> <p>Anogir swyddogion i ddefnyddio timoedd priodol (h.y. Timoedd Plismona Bro i gynorthwyo ag ymholiadau o dŷ i dŷ neu gydlynnydd TCC mewn ymchwiliadau trosedd cymhleth a difrifol.)</p> <p>Gellir archwilio camerâu corff, ac adroddwyd am hyn yn ystod digwyddiadau perfformiad sirol. Mae archwiliad o Gyfweiliadau Fideo ar gael drwy fudiad Llwybrau Newydd, sy'n cynnal y Canolfannau Cyfeirio Cam-drin Rhywiol. Mae proses gyfweld yr heddlu'n cael ei datblygu.</p> <p>Mewn perthynas â theledu cylch cyfyng, bellach, mae set o gwestiynau penodol ar bob cofnod</p>

		<p>trosedd er mwyn annog swyddogion i gofnodi manylion unrhyw dystiolaeth TCC. Mae'r Cydlynnydd TCC wrthi'n cynhyrchu fframwaith perfformiad ar gyfer yr adran TCC, ond bu oedi oherwydd y cyfyngiadau presennol o ran COVID-19. Mae'n anodd mesur gwerth TCC gan fod digwyddiadau sydd wedi'u hisraddio, digwyddiadau lle'r ydym wedi anfon adnoddau ychwanegol neu lai o adnoddau, neu heb fynd iddynt o gwbl, oherwydd cymorth TCC.</p> <p>Mae'r graffiau yn Atodiad 1 yn rhoi arwydd o'r defnydd effeithiol sy'n cael ei wneud o'r system, sydd hefyd yn caniatáu comanderiaid Aur ac Arian i fonitro digwyddiadau'n weithredol o gwmpas yr ardal Heddlu drwy'r ap Hikcentral Control Client.</p> <p>Mae graffiau 1 – 2 yn dangos nifer y lawrlwythiadau y gofynnwyd amdanynt i gefnogi ymchwiliadau tystiolaethol. Mae graff 3 yn dangos nifer y digwyddiadau sy'n cael eu monitro gan y rheolwyr. Mae graff 4 yn benodol i'r defnydd o'r system mewn perthynas ag unigolion coll. Mae argaeledd TCC yn aml yn hollbwysig ar gyfer sefydlu symudiadau'r rhai sydd ar goll, sydd yna'n caniatáu ar gyfer lleoli adnoddau'n effeithiol er mwyn dod o hyd iddynt.</p>
5	<p><i>Sicrhau bod y llwybr cymorth i ddiodefwyr yn glir, ac y ceir cydsyniad ar y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad yn y dyfodol. O fewn hyn, bydd angen:</i></p> <p><i>a. Sicrhau bod cyfeirlyfr ar gyfer diodefwyr yn cael ei gynnal ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol i gyfeirio diodefwyr at asiantaethau sy'n darparu cymorth</i></p>	<p>Bydd yr Heddlu'n defnyddio gwefan Dewis Cymru, sy'n rhoi manylion am yr holl wasanaethau cymorth sydd ar gael ledled Cymru.</p> <p>https://www.dewis.wales/</p> <p>Bydd modd cael mynediad i'r cyfeiriadur drwy'r pecyn gwybodaeth newydd ar gyfer diodefwyr hefyd.</p> <p>Bydd ailgynllunio pecynnau gwybodaeth ar gyfer diodefwyr yn sicrhau bod pob diodefwydd trosedd, ym mhob categori, yn derbyn gwybodaeth ddiweddar a pherthnasol, gan gynnwys cyngor cynhwysfawr ynghylch gwasanaethau cymorth. Bu hyn yn broblemus yn y gorffennol gan y bydd darparwyr gwasanaeth yn aml yn newid ac nid yw gwefannau'r heddlu wedi'u diweddarau'n unol â hynny.</p>

	<p><i>iechyd meddwl ac eiriolaeth o fewn ein cymunedau</i></p> <p><i>b. Gwell ymwybyddiaeth i ddiodefwyr, troseddwy a swyddogion o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael</i></p>	<p>Bydd y pecynnau hefyd yn cynnwys manylion cynhwysfawr am wasanaethau cymorth Goleudy, a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer diodefwyr yn ogystal â rhoi gwybodaeth loywi ar gyfer swyddogion.</p> <p>Awgrymodd adborth diweddar gan ddiodefwyr bod 58% o ddiodefwyr yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau cymorth. Bydd y pecynnau'n sicrhau bod canlyniad o 100% yn cael e gyflawni.</p>
6	<p><i>Chwilio'n weithredol am adborth gan y diodefwyr hynny sydd wedi tynnu'n ôl o ymchwiliadau er mwyn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau</i></p>	<p>Bydd y set cwestiynau newydd ar y System Rheoli Troseddu'n gorfodi swyddogion i gael esboniad wrth ddiodefwyr o ran pam maen nhw'n tynnu eu cefnogaeth yn ôl ar gyfer ymchwiliadau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i oruchwylwyr ac arolygwyr adnabod ac unioni unrhyw resymau posibl, a sicrhau bod pob dim yn cael ei wneud i gynnal ffydd a chefnogaeth diodefwyr yn ystod yr ymchwiliad.</p> <p>Bydd cyfleoedd ychwanegol i gael adborth gan ddiodefwyr drwy holiadur a fydd yn cael ei anfon ar adegau penodol (mis ar ôl i'r ymchwiliad gychwyn a phan weithredir y canlyniad). Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae'n gam gweithredu ar gyfer yr is-grŵp Dioddefwyr a Thystion.</p>
7	<p><i>Adolygu'r holl argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith presennol o ymgysylltu â diodefwyr, yn ogystal â darparu diweddariadau yn unol â hynny</i></p>	<p>Roedd yr adroddiadau a restrwyd yn atodiad yr adolygiad craffu dwys yn rhestru 147 argymhelliad blaenorol o ffrydiau gwaith sy'n mynd yn ôl sawl blwyddyn. Cafodd y gwaith hwn ei gynnwys o fewn fforymau grŵp Gweithrediadau ac Ymchwilio eraill, ond roedd yn anodd olrhain canlyniad terfynol ym mhob achos.</p> <p>Pennwyd y camau a nodwyd o'r prosiect hwn i'r is-grwpiau perthnasol o dan y grŵp Strategol Ymchwiliadau a Chyfiawnder Troseddol newydd.</p>


		Yn ogystal, mae camau gweithredu o'r digwyddiad gwella parhaus yr ymgwymerwyd ag ef fel rhan o'r Prosiect Gweithredu Dioddefwyr yn cael eu datblygu a'u gweithredu ar hyn o bryd.
8	<i>Sicrhau bod Gwelliant Parhaus o fewn yr Heddlu'n cael ei yrru'n strategol er mwyn cefnogi'r strategaeth reoli a'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Dylai hyn gynnwys cronfa ganolog o wybodaeth er mwyn nodi tueddiadau a llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â chanllawiau clir ynghylch cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer argymhellion a ddaw i'r amlwg</i>	Y Tîm Uwch Reolwyr Gwella Busnes sy'n penderfynu ynghylch mabwysiadu digwyddiad neu fater ac mae'n gydnaws â Datganiad Rheoli'r Heddlu, gweithrediadau Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi, Strategaeth Reoli'r Heddlu a'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Bydd camau gweithredu a godir mewn digwyddiadau unigol yn cael eu monitro drwy'r grwpiau perthnasol a'u hadrodd wrth y Bwrdd os yn briodol.
9	<i>Sicrhau trosolwg strategol clir o faterion sy'n ymwneud â'r broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan fwrw ymlaen â'r gwaith trawsadrannol sydd ei angen er mwyn rhoi dioddefwyr wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau</i>	Mae'r strwythur llywodraethu newydd yn sicrhau bod gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr Heddlu.

		<pre> graph TD AWCCJB[All Wales Criminal Justice Board] --> LCCJB[Local criminal Justice Board - PCC] LCCJB --> ACC[Performance and Outcomes board ACC] LCCJB --> VWF[Victim Engagement Forum] LCCJB --> VWG_OPCC[Victim and Witnesses Group - OPCC] ACC --> CJISG[Criminal Justice and Investigations strategic Group D/C/Supt] CJISG --> INV[Investigations D/Supt] CJISG --> CJ[Victim and Witnesses Group Supt] CJISG --> CJD[Criminal Justice A/Director CJD] CJ --> VWG_OPCC </pre> <p>Bydd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr newydd yn ceisio rhoi llais clir i ddiodefwyr o'u safbwynt nhw, a byddant yn medru dylanwadu ar flaenoriaethau strategol yr Heddlu yn ogystal â rhoi adborth ac awgrymiadau ar gyfer unrhyw fentrau a drefnwyd.</p>
10	<p><i>Darparu cynrychiolaeth uwch yn gyson ar lefel leol ar baneli Adolygu Dynladdiad Domestig, a sicrhau bod y camau gweithredu sy'n deillio ohonynt yn cael eu hymgorffori yn y strwythur llywodraethu a chraffu priodol.</i></p>	<p>Cyfeirir cynrychiolaeth ar y paneli Adolygiad o Ddyladdiad Domestig gan Dîm Arweinyddiaeth Uwch yr Adran Ymchwiliadau Troseddol, ac mae mecanweithiau eisoes mewn grym sy'n benodol ar gyfer paneli adolygu unigol. Rhaid i'r swyddog a benodir fod yn un sydd heb gael cysylltiad â'r ymchwiliad. Gan hynny, rhaid ystyried pob achos â'r gofyniad hwn mewn cof.</p> <p>Unwaith y bydd yr Adolygiad o Ddyladdiad Domestig wedi'i gwblhau, rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan swyddog o reng Uwch-arolygydd o leiaf, sy'n fodlon â'r cynnwys a ddarparwyd</p>


		<p>gan yr heddlu ac sy'n ymwybodol o'r argymhellion. Os oes unrhyw argymhellion ar gyfer yr heddlu, byddant yn cael eu hystyried gan y daliwr portffolio priodol ar gyfer gweithredu pellach.</p>
--	--	---

6. Atodiadau


Graff 1




Graff 2



Graff 3



Graff 4



7. Cefndir / Papurau Ategol

- Yr adroddiad gwreiddiol: <http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/91119/victims-deep-dive-fv.pdf>
- Ymateb y Prif Gwnstabl: <http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9121/chief-response-re-deep-dive-review.pdf>

Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 04/11/2020

Y PENDERFYNIADAU A WNAED

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

- 1. Craffu ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd ers cyfarfod diwethaf y Panel**
- 2. Gwneud argymhellion i'r Comisiynydd fel y gwêl y Panel yn ddoeth.**

Y Rhesymau:

Mae Adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon.

Awdur yr Adroddiad:

R J Edgecombe

Swyddi:

Swyddog Arweiniol i'r Panel

Cyfeiriadau E-bost:

rjedgeco@sirgar.gov.uk

DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
04/11/2020

DECISIONS MADE

Section 28(6) of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 requires the Panel to:

1. Scrutinise decisions made by the Commissioner in respect of the performance of his functions, and
2. Make recommendations to him in respect of the performance of those functions

As part of that duty the Panel should review the decisions set out in the attached report and raise such questions in relation to them as the Panel considers appropriate.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

Signed: *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)*

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Host Authority File	PACP015	County Hall Carmarthen

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd (gan gynnwys y rhai a wnaed yn y Bwrdd Plismona) o 10 Gorffennaf i 19 Hydref 2020

Teitl a Chrynodeb	Dyddiad
<p>Cyfraniad tuag at y Prosiect Troseddwyr</p> <p>Penderfynodd CHTh roi arian tuag at y Prosiect Troseddwyr Stelcio. Mae CHTh yn gweithio gyda'r bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol er mwyn cefnogi ac estyn cylch gorchwyl dyfarniad Grant Refeniw Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun peilot sy'n mynd i'r afael â stelcio ar draws y rhanbarth.</p> <p>Cytunodd CHTh i roi £9901 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau i gyfrannu at y prosiect.</p> <p><i>(Gwnaed y penderfyniad yn y chwarter blaenorol).</i></p>	19 Mai
<p>Cyfraniad tag at Swyddog Brysbennu Twyll</p> <p>Cymeradwyodd CHTh gynnig i bennu arian ar gyfer ariannu rôl Swyddog Brysbennu Twyll ar sail 12 mis. Aeth adran CID Heddlu Dyfed-Powys at y CHTh i ofyn iddo gefnogi'r Tîm Troseddau Economaidd â chynllun peilot 12 mai. Nod y rôl yw gwella rheoli, cyfeirio ac ymchwilio twyll yr adroddir amdano wrth Heddlu Dyfed-Powys.</p> <p>Cymeradwyodd CHTh ddyrannu £21,215.50 o gyllideb y Ddeddf Elw Troseddau i ariannu'r rôl ar sail 12 mis.</p>	10 Gorffennaf
<p>Cytundeb cerbydau interim</p> <p>Cymeradwyodd CHTh argymhelliad ar gyfer gwobrwyo cytundeb cerbydau interim hyd nes y bydd cytundeb newydd yn cael ei ddyfarnu ym mis Ebrill 2021. Yn dilyn ymarfer cymharu costau gan y Rheolwr Fflyd, cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi'r cytundebau canlynol i ddarparu ar gyfer yr Heddlu ar gyfer y cyfnod interim tan Ebrill 2021:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau bîr perfformiad isel (8) – Peugeot • Cerbydau cronfa (4) – Peugeot • Cerbydau Traffig Perfformiad Uwch (10) – BMW • Faniau cell (6) – Ford <p>Cyfanswm gwerth y cytundeb interim yw £533,317.40.</p>	20 Gorffennaf
<p>Rhodddwyd grant i YMCA Abertawe</p> <p>Penderfynodd CHTh roi grant i YMCA Abertawe ddatblygu a chynnal clwb ieuenctid yn ardal Glan-y-môr, Llanelli, sydd heb gyfleuster clwb ieuenctid ar gyfer y gymuned. Yn dilyn llwyddiant</p>	22 Gorffennaf

y grant blaenorol a'r angen i'r clwb ieuencid barhau â'i waith, cyflwynwyd achos busnes i'r CHTH ar gyfer parhau â'r prosiect.

Rhoddodd CHTH grant o £9500 o gyllideb y Ddeddf Elw Troseddau tuag at YMCA Abertawe i gynnal y prosiect clwb ieuencid Glan-y-môr tan fis Mawrth 2021.

Rhoddwyd grant i Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe 22 Gorffennaf

Penderfynodd CHTH roi grant 6 mis i Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Abertawe i ddatblygu a chynnal sesiynau pêl droed yn ardal Glan-y-môr, Llanelli. Yn dilyn llwyddiant y grant blaenorol, a'r angen ar gyfer parhau â'r prosiect, cyflwynwyd achos busnes i'r CHTH er mwyn parhau â'r prosiect.

Cytunodd CHTH i roi grant o £9542.30 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau tuag at Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe er mwyn cynnal y prosiect 'Kicks' Glan-y-môr tan fis Mawrth 2021.

Dewisiadau ar gyfer prosiect ystadau Aberhonddu 4 Awst

Cymeradwyodd CHTH benderfyniad i fwrw ymlaen â dewisiadau ar gyfer datblygu ystâd Heddlu Dyfed-Powys yn Aberhonddu, Powys. Cymeradwyodd CHTH benderfyniad i Dîm Gweithredol SCHTh a Phrif Swyddogion ystyried dau ddewis ar gyfer datblygu'r prosiect. Mae dewis 1 yn rhoi cyfle i adnewyddu'r adeilad presennol yn Aberhonddu, ac mae dewis 2 yn ystyried creu cyfleuster newydd pwrpasol.

Cymeradwyodd CHTH benderfyniad i barhau i adolygu dewis 1 a dewis 2 ar gyfer y prosiect, ac i Brif Swyddogion a Thîm Gweithredol SCHTh asesu cost ac addasrwydd pob dewis.

Argraffu ar gyfer adroddiad 2019-20 CHTH 12 Awst

Cymeradwyodd CHTH benderfyniad i argraffu Adroddiad Blynyddol 2019/2020. Y cwmni lleol Gwasg Gomer Cyf fydd yn ei argraffu. Disgwylir i'r CHTH gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu a chyflenwi swyddogaethau statudol. Ysgrifennwyd Adroddiad Blynyddol 2019/2020 gan staff SCHTh. Cafodd ei ddylunio gan gwmni allanol a'i gyhoeddi ar-lein, ac am y tro cyntaf, y mae wedi'i gynhyrchu mewn cyfres o fideos.

Cysylltwyd â nifer o gwmnïoedd argraffu er mwyn gofyn am amcanbrisiau ar gyfer yr Adroddiadau. Derbyniwyd tri amcanbris, ac roedd y cwmni a ddewiswyd yn cynnig yr amcanbris rhataf ar gyfer y gwasanaeth yr oedd ei angen.

Y gost ar gyfer argraffu oedd £495 ar gyfer 100 copi Cymraeg a 100 copi Saesneg.

Cronfa Astudiaethau Academaidd

20 Awst

Cyflwynodd CHTh fenter i gefnogi astudiaethau academaidd lefel israddedig ac ôl-raddedig swyddogion heddlu a staff heddlu. Y nod yw cefnogi astudiaethau sy'n berthnasol ar gyfer rolau presennol sydd hefyd yn elwa'r sefydliad ag elfen ymchwil gref sy'n cefnogi datblygiad Heddlu Dyfed-Powys.

Bydd y cyfle academaidd yn rhan o'r polisi Addysg Uwch, Prentisiaethau a Hyfforddiant Ôl-fynediad. Mae'r polisi'n nodi'r telerau ac amodau sydd ynghlwm â derbyn cyllid, sy'n talu am hyd at 50% o'r costau. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan Banel, sy'n cynnwys y Pennaeth Dysgu a Datblygu, Pennaeth Staff SCHTh ac aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol.

Pennodd y CHTh £10,000 o gyllideb SCHTh ar gyfer darparu'r gronfa, a fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Cytundeb cynllun camera sefydlog

25 Awst

Cefnogodd y CHTh argymhelliad i wobrwyo'r cynllun camerâu diogelwch sefydlog i Jenoptik Traffic Solutions UK Cyf. Er mwyn cydymffurfio â Chymeradwyaeth Math y Swyddfa Gartref, mae'n hollbwysig fod camerâu diogelwch sefydlog a'r amgaeadau a gyflenwir yn cael eu cynnal a'i graddnodi'n flynyddol er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol a chydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch.

Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi cytundeb gwerth £35,391 (heb gynnwys TAW) i Jentopik Traffic Solutions Cyf ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Cefnogaeth ar gyfer aelodau staff sy'n derfynol wael

25 Awst

Mewn cytundeb â'r Prif Gwnstabl, cefnogodd CHTh Heddlu Dyfed-Powys o ran arwyddo'r Siarter Marw i Weithio. Llwyddodd yw'r siarter i weithleoedd roi cefnogaeth ddigonol i aelodau staff sy'n derfynol wael.

Cyfraniad ariannol ar gyfer prosiect 'Kicks' Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe yn Sir Benfro

3 Medi

Cymeradwyodd CHTh gynnig i gyfrannu at weithredu'r prosiect 'Kicks' Uwch-gynghair yn Sir Benfro. Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu yn Sir Benfro mewn partneriaeth â SCHTh a'r Heddlu, ac mae'n adeiladu ar ei lwyddiannau yng Nglan-y-môr, Llanelli, ac ar draws rhanbarth Dinas Abertawe.

Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i blant o'r ardal leol fod yn rhan o'r gymuned, er mwyn cynyddu hyder, cyfleoedd bywyd ac atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy chwaraeon. Mae'r prosiect yn ymagwedd bartneriaeth tuag at atal trosedd, ac mae'n gwneud buddsoddiad yn iechyd a lles pobl ifainc yn y sir. Y bwriad yw meithrin cysylltiad cadarnhaol rhwng pobl ifainc, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, a'r heddlu a phartneriaid.

Cyfrannodd CHTh £4000 o'r gronfa Deddf Elw Troseddau ynghyd â £1000 o gefnogaeth o gyllideb yr Heddlu.

Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn ystod y pandemig Coronafeirws 18 Medi

Cymeradwyodd y CHTh benderfyniad i gyflwyno rota cymysg o alwadau ac ymweliadau corfforol ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. O ganlyniad i'r pandemig coronafeirws a chyngor a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, gohiriodd Heddlu Dyfed-Powys bob ymweliad nad oedd yn hanfodol â safleoedd yr Heddlu o 18 Mawrth 2020 er mwyn diogelu cadernid plismona yn Nyfed-Powys.

O ganlyniad i fonitro'r sefyllfa'n gyson, ar 12 Awst, ailgychwynnodd galwadau ffôn i'r ddalfa. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi bod yn galw'r ddalfa'n wythnosol ers y dyddiad hwnnw er mwyn siarad yn uniongyrchol â charcharorion sy'n fodlon siarad â nhw er mwyn gwirio lles. Yn y Bwrdd Plismona ar 18 Medi, cafwyd trafodaeth bellach er mwyn ailgyflwyno dychweliad fesul cam i ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gyda rota cymysg o alwadau ffôn a galwadau corfforol.

Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i gyflwyno rota cymysg o 5 Hydref, a fydd yn cael ei adolygu'n barhaus, gan ddibynnu ar lefelau COVID-19 ym mhob ardal.

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu 18 Medi

Cymeradwyodd CHTh ddiwygiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd Plismona a chylch gorchwyl Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn dilyn adolygiad gan Brif Swyddogion a thîm SCHTh. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar [wefan SCHTh](#).

Cymeradwywyd newidiadau i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 18 Medi

Cymeradwyodd CHTh fân ddiwygiadau a diweddariadau i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn ofynnol ar gyfer diweddaru'r ddogfen er mwyn adlewyrchu arferion. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion, strwythurau a phrosesau yn ôl pa rai y bydd SCHTh a HDP yn cael eu llywodraethu ar y cyd ac ar

wahân. Lluniwyd y fframwaith ar gyfer cefnogi cyflenwi Cynllun Heddlu a Throseddu CHTh.

Noddi Cyngor Hil Cymru

30 Medi

Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i noddi cyfres o ddigwyddiadau rhithwir ar-lein gan Gyngor Hil Cymru er mwyn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r arian nawdd yn cefnogi digwyddiad lansio rhithwir ar 1 Hydref ynghyd â digwyddiadau ymgysylltu rhithwir pellach drwy gydol mis Hydref.

Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i roi £1000 tuag at y digwyddiad.

Rhoi arian tuag at Ganolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion

1 Hydref

Cymeradwyodd CHTh benderfyniad i wneud cyfraniad ariannol i Ganolfan Ragoriaeth Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn Noc y Gogledd, Llanelli, ac mae'n elusen annibynnol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd. Agorwyd y ganolfan gan y CHTh ar 11 Medi 2020.

Bydd y ganolfan yn darparu darpariaeth meithrin gofrestrdig Gofal yng Nghymru, cyfleuster meithrinfa estyn allan â chlwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau, hyfforddiant, mentora a chwrsel profesiynol ac wedi'i gomisiynu, a phresgripsiwn cymdeithasol (cymorth Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gwybodus). Mae'r Ganolfan yn hyrwyddo lles cadarnhaol, yn rhoi'r grym i unigolion gyrraedd eu potensial, ac yn annog dysgwyr i adeiladu system gred gadarn.

Cyfrannodd CHTh £1000 i'r prosiect.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol